



ELGC(5)-10-18 Papur 2/ Paper 2
Oddi wrth: Ysgrifennydd y Cabinet
dros yr Economi a Thrafnidiaeth
From: Cabinet Secretary for Economy and Transport

John Griffiths AC
Cadeirydd
y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

7 Mawrth 2018

Annwyl John

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn sesiwn craffu'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 25 Ionawr i roi rhagor o wybodaeth ichi am y pwyntiau canlynol. Byddaf yn trafod bob un yn ei dro.

- Gweithgarwch Llywodraeth Cymru i sicrhau ymrwymadau cyflogwyr yn gyfnewid am gymorth sectorol;
- Rôl menywod mewn teuluoedd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, ar ôl ymgynghori ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gweinidog Tai ac Adfywio.

Mae'r Contract Economaidd yn ganolog i'n hymdrechion i ddatblygu'r economi yn unol â'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi. Byddwn yn defnyddio'r Contract Economaidd i greu perthynas newydd a mwy deinamig â busnesau. Bydd y berthynas yn cydnabod y busnesau hynny sydd eisoes yn camu at fod yn fusnesau a chyflogwyr cyfrifol ac yn annog a helpu busnesau eraill i ddilyn trywydd tebyg.

Yn ogystal â dylanwadu ar yr hyn y mae busnes yn ei wneud, bydd y Contract yn ein herio i weithio mewn ffordd wahanol ac yn ymwneud mewn ffordd fwy ystyrlon a deinamig â'r gymuned fusnes ar bynciau ehangach fel iechyd a sgiliau yn y gweithle, datgarboneiddio a gwaith teg.

Mae'r ddeialog rhyngom â busnesau ac eraill yn mynd rhagddi i bennu natur lawn y Contract Economaidd ac yn arbennig, i benderfynu'n union beth mae pob maen prawf yn ei olygu a'r un mor bwysig, sut y gall busnes ddangos ei fod yn cydymffurfio. Rydym am sicrhau cymaint o gonsensws â phosib yn y broses, a hynny cyn lansio'r Contract Economaidd yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd.

Cafwyd cwestiwn penodol hefyd am deuluoedd sy'n gymwys am y Credyd Cynhwysol a ph'un a fu gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru at Lywodraeth y DU ynghylch pa mor bwysig yw sicrhau mai menywod yw derbynyddion diofyn y Credyd Cynhwysol. Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi'n gryf ei phryderon droeon wrth Lywodraeth y DU gan alw arni i roi stop ar gyflwyno'r Credyd Cynhwysol nes bod y problemau arwyddocaol niferus

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sydd ynghlwm wrthi wedi'u datrys. Mae'r diffygion mawr hyn yn cael effaith enfawr ac eang ar bobl sy'n agored i niwed.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi codi'n benodol y pwnc o wneud menywod yn dderbynyddion diofyn y Credyd Cynhwysol. Nid yw rheolau budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau'n gwahaniaethu rhwng y rhywiau. Fel arfer, mae Credyd Cynhwysol yn cael ei dalu bob mis i mewn i un cyfrif banc yn ôl dewis yr hawlydd. Fodd bynnag, caiff hawlwr sy'n bâr ofyn am rannu'r taliad drwy'r Trefniant Talu Amgen. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau bod dewis deallus yn cael ei gynnig i bob hawlydd Credyd Cynhwysol, heb iddo orfod gofyn amdano, sut y bydd yn derbyn ei daliad Credyd Cynhwysol, a hynny drwy gynllun Trefniadau Talu Amgen yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Rebecca Evans AC, y Gweinidog Tai ac Adfywio eisoes wedi ysgrifennu at Esther McVey AS, Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, yn gofyn iddi ystyried sut y gall hawlwr Credyd Cynhwysol gael gwybodaeth well am yr opsiynau talu sydd ar gael iddynt. Bydd gweithgor partneriaeth yn cael ei sefydlu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau, a bydd yn edrych ar sut orau y gall Credyd Cynhwysol helpu unigolion a theuluoedd sydd angen cymorth ychwanegol.

Yours ever,


Ken Skates AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport